
# CYNGOR CYMUNED
# LLANGELYNNIN
# COMMUNITY COUNCIL



## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26

**Mai 2026**

Ebrill 2026

# Cynnwys yr Adroddiad

**Rhif y Dudalen**


**Crynodeb Gweithredol / Datganiad y Cadeirydd** 3-4

**1.** Llangelynnin – Ein Ardal ag Adroddiad Blynyddol y Cyngor Cymuned 5

**2.** Cynghorwyr ag Is-Bwyllgorau 6

- **2.1** Cynghorwyr
- **2.2** Cyfarfodydd yn 2025/26
- **2.3** Is-Bwyllgorau

**3.** Manylion Cysylltu a Gwybodaeth 7

**4.** Llywodraethu a Chydymffurfiaeth 7

**5.** Ein cyllid a sut mae'r Praesept blynyddol yn cael ei wario 8-9

- **5.1** Incwm
- **5.2** Gwariant
- **5.3** Rhoddion
- **5.4** Archwiliad a Chydymffurfiad

**6.** Gweithgareddau 10

**7.** Wedi'w gyflawni 11

**8.** Cynghorwyr a etholwyd a gyfetholwyd ers Etholiad Mai 2022 12

**ADRODDIAD DIWEDD Y FLWYDDYN Y CADEIRYDD - 2025/2026**

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llangelynnin ar gyfer 2025/26, sy'n manylu rhai o'r gwasanaethau a ddarparwyd gennym ar gyfer y gymuned, a'r trefniadau llywodraethu ac ariannol a roddwyd mewn lle yn ystod y cyfnod hwn.

Ni fyddai cyflawniadau'r Cyngor Cymuned yn bosibl heb ymroddiad rhagorol a gwaith diwyd ein Clerc – Jane Jenkins, ag ein Cynghorwyr Cymuned ffyddlon.

Hoffwn ddiolch i Jane, y Clerc, am y gwasanaeth y mae wedi'i ddarparu wrth redeg y Cyngor Cymuned o ddydd i ddydd dros y flwyddyn ddiwethaf ac i Glenda am y cyfieithu.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r Cynghorwyr Cymuned am eu hymroddiad a'u cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn. Diolch hefyd i Louise Hughes ein Cynghorydd Sir, a barhaodd i helpu i ddarparu llais i'n cymuned wrth hyrwyddo materion lleol o fewn Cyngor Gwynedd.

Mae'r Cyngor Cymuned yn derbyn Praesept blynyddol a ddefnyddir i gefnogi amcanion cymunedol yn ogystal â gofalu am yr amgylchedd. Mae hefyd yn cefnogi cynnal a chadw ein hasedau cymunedol a hyrwyddo ardaloedd o bwys sy'n helpu mynediad cyhoeddus, ein mwynhad o'r ardal a iechyd a lles ein cymunedau.

Gwnaeth y Cyngor Cymuned gais i Gyngor Gwynedd am gynnydd yn y Praesept blynyddol ar gyfer 2025/26 ar gyfer ein cymuned – sef £14,405.

Llwyddwyd i gadw'r Praesept mor isel â phosibl trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr lle bo modd a dod o hyd i'r prisiau gorau posibl i ddarparu'r gwerth gorau am ein arian.

Unwaith eto, eleni, ildiodd pob Cynghorydd, heblaw un, eu hawl i'r lwfans blynyddol sy'n dangos eu hymrwymiad i'r gymuned. Maent hefyd wedi cwblhau cyrsiau gorfodol i gydymffurfio â pholisi hyfforddi'r cyngor.

Mae’r Cynghorwyr wedi rhoi o'u hamser i gyfarfod ag amrywiol gyrff - Cyngor Gwynedd, Network Rail a Dŵr Cymru i gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau i wella Ward Llangelynnin.

Hoffwn ddiolch i bawb a oedd yn rhan o drefnu a gwirfoddoli gyda'r canlynol:

• Mae diffibriliwr newydd wedi'i brynu a'i osod gan y Cyngor Cymuned yng nghilfan Gwastadgoed

• Dyluniwyd a gosodwyd coeden Nadolig artiffisial newydd yn Rhoslefain a oedd yn llwyddiant a bydd yr un peth yn cael ei osod eleni yn Llwyngwril a fydd yn bodloni ein hamcanion amgylcheddol

• Mae tudalen Facebook newydd y Cyngor Cymuned wedi'i sefydlu, sy'n helpu i hysbysu'r gymuned am unrhyw hysbysiadau perthnasol

• Mae rheiliau'r Cae Chwarae wedi'u peintio gan ychydig o aelodau'r cyngor a gwirfoddolwyr lleol

• Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Cymuned yn disodli'r hen feinciau pren gyda meinciau plastig wedi'u hailgylchu, sy'n cynnig nifer o fanteision, gan gynnwys cynnal a chadw isel, gwydnwch, cynaliadwyedd a chost-effeithiolrwydd.

Hoffwn ddiolch i'r gymuned leol am godi arian drwy gydol y flwyddyn ynghyd ag Ymatebwyr Cyntaf Fairbourne am roddion i'r Cyngor Cymuned ar gyfer cynnal a chadw ei ddiffibrilwyr. Yn ogystal, diolch yn fawr iawn i Andy Evans (Egnitest Ltd) am rodd o'r diffibriliwr gyda cabinet wedi'i gynhesu, a osodwyd ger y Cae Chwarae yn Llwyngwril.

Credaf fod cyfraniad aelodau ein cyngor a mewnbwn ein trigolion, grwpiau lleol a threfnwyr digwyddiadau wedi helpu i wella ein cymuned.

Gallaf adrodd ein bod wedi parhau i fuddsoddi yn y gymuned leol (Llwyngwril a Rhoslefain) trwy gynnal a chadw'r Cae Chwarae, Y Gof Golofn, y Cyfleusterau Cyhoeddus, meinciau a byrddau hysbysebu a thorri gwair y llwybrau cyhoeddus.

Darparodd y Cyngor Cymuned gyllid hefyd i gefnogi'r Ganolfan, Mynwentydd Eglwysi Llangelynnin ac Apêl yr Ambiwlans Awyr lleol.


Mae gan y Cyngor Cymuned ddwy sedd wag ar hyn o bryd. Mae hysbysiadau wedi'u cyhoeddi, heb unrhyw ymateb, sy'n golygu y gallwn nawr gyfethol dau aelod newydd.

Gobeithio, byddwn yn parhau i ddarparu'r lefel o wasanaeth a ddisgwylir ar gyfer 2026/27 i'r gymuned a pharhau i wneud Ward Llangelynnin yn gymuned well.

**Geraint Edwards – Cadeirydd Cyngor Cymuned Llangelynnin**

Dyddiad: 08.04.2026

## 1. Llangelynnin –
## Ein Ardal ag Adroddiad Blynyddol ein Cyngor Cymuned




**LLANGELYNNIN**

Ardal Cyngor Cymuned Llangelynnin

Mae Llangelynnin o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, ac mae gan Gyngor Cymuned Llangelynnin boblogaeth o 562 ar y Gofrestr o Etholwyr (Mis Mai 2022), gyda Ward Cymuned Llangelynnin yn cynnwys ardal

Rhoslefain a Llwyngwril.

### Adroddiad Blynyddol y Cyngor Cymuned – 2025/26

Ym Mis Chwefror 2021 hysbyswyd y Cyngor Cymuned fod dyletswydd newydd wedi'w chyflwyno, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Democratiaeth (Cymru), fod cynghorau cymuned i gynhyrchu adroddiad blynyddol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ar ôl 1af o Ebrill 2022, ac yn flynyddol wedi hynny.

Nid oes templed ar gyfer adroddiad blynyddol cynghorau cymuned, gan y disgwylir i fformat a lefel y manylder adlewyrchu maint a gweithgareddau'r cynghorau. Fodd bynnag, pwrpas yr adroddiad yw rhoi cyfle i'r Cyngor Cymuned fanylu ar eu trefniadau llywodraethu ac ariannol, i adrodd a dangos y gwaith a wnaed i ddelio gydag unrhyw bryderon lleol a gwella'r ardal leol dros y flwyddyn.

Dyma'r pumed Adroddiad Blynyddol i Gyngor Cymuned Llangelynnin ddarparu, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.

## 2. Cynghorwyr ag Is-Bwyllgorau


Mae gan Gyngor Cymuned Llangelynnin ddeg aelod etholedig sy'n cynnal deg cyfarfod ffurfiol y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfodydd ar ail Ddydd Mercher yn y mis ac eithrio Ionawr ac Awst pan nad oes cyfarfodydd.

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd bob blwyddyn yn y Cyfarfod Blynyddol ym Mis Mai. Mae Cynghorwyr Cymuned yn cael eu hethol bob pum mlynedd. Bydd yr etholiad nesaf yn 2027. Mae'r Cynghorwyr presennol yn aelodau o'r Cyngor Cymuned hyd Mai 2027.

Gwahoddir Cynghorydd Sir y Ward i fynychu pob cyfarfod.

### 2.1 Ein Cynghorwyr yn 2025/26

Yn 2025/26 roedd ein aelodau etholedig i'w gweld isod …. (gyda fwy o fanylion ar dudalen 12)




**Cynghorydd Sirol - Llangelynnin** - Mrs Louise Hughes - louisehughes1962@yahoo.com
**Tel: 01654 711 051**

**Clerc y Cyngor Cymuned** – Mis Chwefror 2023 i'r presennol – **Jane Jenkins**
clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk

### 2.2 Cyfarfodydd yn 2025/26

Yn 2025/26, cynhaliwyd deg cyfarfod ffurfiol ar y dyddiadau canlynol: -

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ebrill – 09.04.25 | Mai – (AGM) 14.05.25 | Mehefin– 11.06.25 | Gorffennaf – 09.07.25 |
| Awst – dim cyfarfod | Medi– 10.09.25 | Hydref – 08.10.25 | Tachwedd – 12.11.25 |
| Rhagfyr – 10.12.25 | Ionawr – dim cyfarfod | Chwefror – 11.02.26 | Mawrth – 11.03.26 |

'Roedd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd i gyd ar gael – wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau mewnol ac allanol Y Ganolfan, Llwyngwril a Rhoslefain ac ar wefan Cyngor Cymuned Llangelynnin.

### 2.3 Is-Bwyllgorau

Ni chynhaliwyd unrhyw is-bwyllgorau yn ystod 2025/26.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor Cymuned yn cynnal cysylltiadau ag rhai o grwpiau, gan gynnwys:

- Ymatebwyr Cyntaf y Gymuned - Llwyngwril / Fairbourne / Friog / Arthog.
- Pwyllgor Y Ganolfan.

## 3. Manylion Cysylltu a Gwybodaeth

Prif gyswllt y Cyngor Cymuned:

**Clerk– Mrs Jane Jenkins**

**2 Tal y Bont**

**Dolgellau**

**Gwynedd**

**LL40 1UA**

- clerc@cygnor-llangelynnin-council.org.uk

**We –** https://www.cyngorllangelynnincouncil.co.uk

Mae cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu harddangos ar yr hysbysfyrddau allanol a mewnol yn Y Ganolfan, yr hysbysfwrdd allanol yn Rhoslefain ac ar Wefan y Cyngor Cymuned.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd yn cael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd mewnol ac allanol yn Y Ganolfan, yr hysbysfwrdd allanol yn Rhoslefain ac ar Wefan y Cyngor Cymuned.

## 4. Llywodraethu a Chydymffurfiaeth

Mae gan Gyngor Cymuned Llangelynnin sawl polisi i gefnogi llywodraethu'r Cyngor sy'n cael eu diweddaru a/neu eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r rhain ar gael i'w gweld ar ein Gwefan.

**Cod Ymddygiad i Aelodau**

**Rheolau Sefydlog**

**Rheoliadau Ariannol**

**Adroddiad Bioamrywiaeth - Adran 6 - Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth**

**Polisi Rhoddion**

**GDPR – Diogelu Data**

**Cofrestr Asedau**

**Cofrestr Asesu Risg**

**Polisi Hyfforddi**


**Cynllun Hyfforddi**

**Polisi Iaith**


**Polisi Covid**

## 5. Ein Cyllid a sut mae'r praesept blynyddol yn cael ei wario

**5.1 Incwm** - Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd yn 2025/26 oedd **£16,263.95**




**5.2 Gwaraint** – Cyfanswm y gwariant yn 2025/26 oedd **£14,428.39**




Mae costau gweinyddu a rhedeg y Cyngor Cymuned yn rhan o'r gwariant uchaf yn y flwyddyn ac yn cynnwys yswiriannau, taliadau archwilio, cyflog a chostau y clerc, trwyddedau ac aelodaeth o Un Llais Cymru.

Mae'r ail faes gwariant mwyaf yn ymwneud â gwaith cynnal a chadw ac mae hyn yn cynnwys torri gwair y Cof Golofn, y llwybrau cyhoeddus, a'r cae chwarae, disodli meinciau, cynnal a chadw diffibrilwyr a chyfraniad o £2,000.00 i Gyngor Gwynedd i gadw'r toiledau cyhoeddus ar agor drwy gydol misoedd yr haf yn Llwyngwril.

## 5.3 Grantiau a Rhoddion 2025/26

Gwnaeth Cyngor Cymuned Llangelynnin nifer o roddion elusennol yn 2025/26 gyda gyfanswm o £1,900 i helpu i gefnogi gwasanaethau lleol pwysig a sefydliadau lleol.

**Rhoddion 2025/26**

Y Ganolfan, Llwyngwril **£1,000**

Mynwentydd Plwyf Llangelynnin **£500**

Ambiwlans Awyr Cymru **£250**

Clwb Hoci Dysynni **£75**

Urdd Gobaith Cymru **£75**

Dail Dysynni **£75**

Lleng Frenhinol Prydain **£25**

## 5.4 Archwilio a Chydymffurfiaeth

**Archwiliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26**

Fel Cyngor Cymuned bach, mae nifer o gamau gweithredu ariannol blynyddol y mae'n ofynnol eu cwblhau drwy gydol y flwyddyn. Yn 2025/26 roedd y camau archwilio yn cynnwys paratoi'r gyllideb, derbyn yr Hysbysiad Archwilio, cau a chydbwyso'r llyfr arian parod ar gyfer y flwyddyn, cwblhau'r ffurflen flynyddol, trefnu archwiliad mewnol a phan fydd wedi'i gwblhau a'i lofnodi trefnu'r archwiliad allanol. Cynhelir yr archwiliad mewnol gan Swyddfa Archwilwyr Cyngor Gwynedd a chynhelir yr archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad llawn yn 2025/26.

Bydd yr "hysbysiad o hawliau etholwyr" yn cael ei arddangos ar yr hysbysfyrddau cyhoeddus ac ar ein gwefan.

Mae cadarnhad ysgrifenedig o'r Archwiliad wedi'i gwblhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 wedi'i dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru ac roedd y farn archwilio wedi'i Chymryd yn Amodol.

## 6. Gweithgareddau yn 2025/26 i helpu i wella ein hardal leol

Roedd y gweithgareddau a gyflawnwyd gan y Cyngor Cymuned yn 2025/26 yn eang ac amrywiol ac yn cynnwys: -

- Parhau â'r bartneriaeth â Chyngor Gwynedd, a'r cyfraniad a wnaed, ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus yn Llwyngwril.
- Parhau i gysylltu â'r Adran Hawliau Tramwy ynghylch mynediad i'r traeth.
- Adrodd i Barc Cenedlaethol Eryri ar amodau cynllunio lleol.
- Adrodd a thrin y Japaneese Knotweed.
- Adrodd am lwybrau cyhoeddus wedi'u blocio.
- Adolygu/derbyn rhaglenni gwaith Priffyrdd Gwynedd.
- Cysylltu â Grŵp Cyswllt Arfordir Cambrian ynghylch materion yn ymwneud â Network Rail a wal ffin a rhwystrau Cyngor Gwynedd ar y ffordd rhwng Llwyngwril a Friog.
- Trefnu archwiliad y Cae Chwarae gyda ROSPA.
- Adrodd am goed a chwyn sydd wedi gordyfu, problemau draenio, difrod i waliau ffin, adnewyddu marciau ffordd i Gyngor Gwynedd.
- Gwaith cynnal a chadw i'rGof Golofn – glanhau a torri'r gwair.
- Ymdrin â choed a chwyn sydd wedi gordyfu ar y llwybrau cyhoeddus.
- Ymateb ac adolygu ymgynghoriadau'r Llywodraeth yn ôl y gofyn.
- Mynychu Sul y Cofio i gynrychioli'r gymuned leol.
- Trefnu a darparu Coed Nadolig yn Llwyngwril a Rhoslefain.
- Clirio malurion o Draeth Llwyngwril.
- Cysylltu â Chyngor Gwynedd ynghylch cau ffyrdd ac adrodd ar faterion rheoli traffig.
- Darparu cyfleuster mynediad o bell i alluogi cyfarfodydd gael eu cynnal trwy Teams/Zoom.
- Cynorthwyo ac ymgymryd â'r dasg o ddileu tyfiant y Japanees Knotweed o'r pentref - gan weithio ochr yn ochr gyda'r unig aelod sy'n weddill o'r grŵp "Grŵp Amgylcheddol Llwyngwril"
- Cysylltu a cynorthwyo y Grŵp Ymatebwyr Cyntaf lleol i gynnal a chadw yr holl Ddiffibrilwyr yn lleol.
- Prynu a gosod diffibriliwr newydd yng Ngwastagoed, Llwyngwril.

## 7. Ein Cyflawniadau yn 2025/26

### DATBLYGIAD LLEOL
• Ymateb i geisiadau cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.
• Ymateb i hysbysiadau cynllunio gan Gynllunio Cyngor Gwynedd.
• Ymateb i faterion trwyddedu gan Gyngor Gwynedd.

### FFYRDD A PHRIFFYRDD
• Cysylltu â Chyngor Gwynedd, yr Adran Briffyrdd, a Heddlu Gogledd Cymru ar faterion priffyrdd yn ymwneud â pharcio a gwaith ffordd/cau ffyrdd.

### DIOGELWCH
• Archwiliad ROSPA wedi'i gynnal yn y Cae Chwarae.
• Archwiliad Dŵr Cymru a gwaith arfaethedig ar Afon Gwril a phibell garthffosiaeth.
• Cysylltu â Chyngor Gwynedd ynghylch erydiad traeth a gwaith atgyweirio.

### CYNRYCHIOLIO ANGHENION Y GYMUNED
• Ymweliadau safle gyda sefydliadau gan gynnwys Priffyrdd Gwynedd/Network Rail/ROSPA/Dŵr Cymru.

### CYDYMFFURFIAD ARIANNOL
• Archwiliad llwyddiannus wedi'i gyflawni ar gyfer 2024/25 gydag Archwiliad Cymru.

### RHEOLI ARIANNOL
• Cynnydd bach yn y Praesept lleol ar gyfer 2025/26.
• Cofrestr asedau wedi'i diweddaru, cofrestr asesu risg at ddibenion yswiriant.

### LLYWODRAETH DDA
• Diweddaru ac adolygu rheolau sefydlog, rheoliadau ariannol, cod ymddygiad i aelodau, polisi rhoddion, polisi amgylcheddol, cofrestr asedau, a chofrestr asesu risg.

### CYNRYCHIOLAETH GYMUNEDOL
• Cynrychioli ardal Llangelynnin yng Ngwasanaeth Eglwys Sul y Cofio.
• Cynrychiolaeth ar bwyllgorau lleol (Y Ganolfan) a digwyddiadau.

### CYNORTHWYO Â CHYNHALIAETH
• Cynnal a chadw offer a matiau'r Cae Chwarae a'u diweddaru lle bo angen.
• Trin ag ailbeintio rheiliau'r cae chwarae.
• Amnewid dwy fainc a oedd wedi'u difrodi.
• Atgyweirio'r fainc bren yn Rhoslefain.

### CYNRYCHIOLAETH
• Cyrhaeddodd tua 65% o gyfarfodydd y Cyngor bresenoldeb o 100%.

# Cynghorwyr

# Cyngor Cymuned Llangelynnin

# Etholwyd Mis Mai 2022

**Mr Ian R Williams**
Coed y Gweddill
Llwyngwril
LL37 2QJ

**Mr Huw Davies**
Cae'r Felin
Llwyngwril
LL37 2JY

**Mr Geraint Edwards**
Elfan
Llwyngwril
LL37 2JJ

**Mr Keith Carroll**
Morannedd
Ffordd Celynnin
Llwyngwril
LL37 2JD

**Mrs Cath Severn**
**(cyfetholwyd 11/06/2025)**
Ty Nant
Mill Street
Llwyngwril
LL37 2JA

**Megan Griffiths**
**(cyfetholwyd Tachwedd 2023)**
Ty Rhosyn,
Station Road
Llwyngwril
LL37 2JS

**Mr Geraint Micah**
Min-y-Don
Rhoslefain
Tywyn
LL36 9ND

**Mr David Griffiths**
30 Godre'r Gaer
Llwyngwril
LL37 2JZ